PAM YMOSTWNG I ARGLWYDDIAETH DUW 'NAWR

Nodyn i'r siaradwr:
Pwysleisiwch fanteision ymostwng i arglwyddiaeth Duw a'r llawenydd sy'n dod o wneud ewyllys Duw

YMOSTWNG I ARGLWYDDIAETH DUW YDI'R GWIR DESTUN DADL (4 mun.)

Dyma'r testun dadl mwyaf sydd 'nawr yn wynebu pobl pob cenedl (Salm 83:18, *BCL;* Micha 4:1)

Yn ôl amserlen Duw, mae cyfnod o newid enfawr yn agos

Ei fwriad ydi amlygu ei nerth, gwneud ei enw'n hysbys, rhoi sylw i bethau'r ddaear er budd pobl sy'n caru cyfiawnder (Eseia 55:10, 11; Rhuf 9:17, 18)

RHAID I BOBL BENDERFYNU BETH MAEN' NHW AM EI WNEUD YNGLŶN AG ARGLWYDDIAETH DUW (4 mun.)

Mae Salm 24:1 ac 89:11 yn dweud mai iawn eiddo Jehofah ydi'r ddaear a'r rhai sydd yn byw arni; ef ydi'r Penllywydd Goruchaf (Dan 4:17, 35)

Yn ôl Salm 89:35-37, tyngodd Jehofah i sefydlu gorsedd dragwyddol drwy Ddafydd a'i "linach"

O 607 C.C.C. ymlaen, fe ganiataodd e fwlch ym mrenhiniaeth llinach Dafydd, torri arni er mwyn "amser y Cenhedloedd" (Lc 21:24, *BCL*)

Daeth "amser y Cenhedloedd" i ben ym 1914 a daeth teyrnas dynion, brenhiniaeth y byd, "yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef" (Dat 11:15)

Yna fe dderbyniodd Iesu Grist frenhiniaeth gan Jehofah (*w*95 11/1 16 par. 2)

Felly dyma'r amser i bobl wybod am hyn a deall pam mae'n rhaid iddyn' nhw benderfynu o blaid neu yn erbyn arglwyddiaeth Duw (Dat 14:6, 7)

LLYWODRAETHAU DYNOL MEWN CYFLWR ARGYFYNGUS (4 mun.)

Mae arweinwyr amlwg yn dweud fod yr amser i'r cenhedloedd benderfynu sut i ddatrys eu problemau yn dirwyn i ben (*tp* 11)

Ymhlith y problemau mae adegau o newyn, torcyfraith, trais hiliol, bod arfau niwcliar ar gael, llygredd, gorboblogi, diweithdra, ac anawsterau economaidd eraill (*w*94 8/1 3-5; *g*93 4/8 3-5)

Yr hyn sy'n cymhlethu'r sefyllfa ydi mai dros dro y mae llywodraethau dynol

Mae unrhyw newid llywodraeth neu weinyddiaeth yn newid ymrwymiadau a pholisïau, gan atal ymdrechion i ddilyn ymlaen yn gyson

Mae llywodraethwyr dynol yn gyfyngedig yn yr hyn y gallant ei wneud

Gall eu bwriadau da nhw gael eu rhwystro gan angau, gan fympwyon pobl yn pleidleisio i'w diswyddo nhw, neu gan chwyldro (Salm 146:3, 4)

DOETH YMOSTWNG I ARGLWYDDIAETH JEHOFAH (10 mun.)

'Roedd yn rhaid i Nebuchadnesar ymostwng i awdurdod Duw (Dan 4)

A Babilon yn ei hanterth, 'roedd Nebuchadnesar yn ymffrostio yn ei lwyddiant, ond yn sydyn fe newidiodd hynny oll (Dan 4:29-33)

Beth oedd effaith hyn ar Nebuchadnesar? (Darllen adnodau 34, 35)

Er na ddaeth i addoli Jehofah, 'roedd yn rhaid iddo dderbyn realaeth diamheuol arglwyddiaeth Jehofah

Gallwn weld cyfochredd yn ein hoes ni

Er enghraifft, fe ymffrostiodd Hitler y byddai'n sefydlu ymerodraeth fyddai'n para 1,000 o flynyddoedd, ac eto mewn tua 12 mlynedd daeth diwedd arni

Er bod rhai llywodraethau yn dod i rym gyda chefnogaeth boblogaidd, yn fuan maen' nhw'n siomi

Ffactor arall sy'n dangos doethineb ymostwng i arglwyddiaeth Jehofah ydi y bydd rheolwr presennol y byd hwn yn fuan yn cael ei fwrw allan (In 12:31)

Ym 1914, daeth Teyrnas Dduw i rym (Dat 12:10)

Mae Jehofah wedi rhoi'r awdurdod i Iesu (Dan 7:13, 14)

Mae cenhedloedd a phobl yn cael eu gwahodd i ymostwng i arglwyddiaeth Duw (Salm 2:1, 2, 12; Seff 2:3)

Doeth yw gwneud hynny 'nawr, gan mai byr ydi'r amser sy'n weddill ar gyfer llywodraethau eraill (Dan 2:44)

Cyn bo hir fe fydd pawb sydd yn gwrthod ymostwng yn cael eu difa a dim ond arglwyddiaeth Duw fydd yn bodoli

SUT I YMOSTWNG I ARGLWYDDIAETH DUW (18 mun.)

Rhaid inni beidio â chaniatáu i amlygrwydd, clod gan y byd, neu gyfoeth materol ein rhwystro ni rhag gwneud y dewis iawn (Diar 16:18; In 19:38: 1In 2:15, 16; *w*95 5/1 28-9)

Mae'n angenrheidiol derbyn a deall gwybodaeth gywir y gwirionedd (1Tim 2:3, 4; *w*97 4/15 28-31)

Mynnwch gael cysylltiad byw â chyfundrefn Duw; dilynwch batrwm y Cristnogion cynnar (Act 2:42; 8:26-38)

Gwnewch benderfyniad cadarn i ddod yn ddisgybl i Grist; dangoswch eich ymgysegriad i Dduw trwy fedydd trochiad (Mth 28:19, 20)

Byddwch yn benderfynol i wneud ewyllys Duw, gan osgoi ysbryd goddefol, terfysglyd y byd (Rhuf 12:2; 1Pedr 4:1, 2)

Mynnwch ran gyson gyda'r gynulleidfa yn cyhoeddi newydd da'r Deyrnas (Lc 9:60; Rhuf 10:10)

Dangoswch wyleidd-dra o flaen Duw a charu'r hyn sy'n iawn (Micha 6:8)

Osgowch ysbryd balch, rhodresgar (*it*-2 681-2)

Sylweddolwch angen peidio â byw inni'n hunain mwyach (2Cor 5:14, 15)

BUDDION YMOSTWNG I ARGLWYDDIAETH DUW (5 mun.)

'Nawr: Dod yn rhan o frawdoliaeth ryngwladol, y grŵp gorau o bobl ar y ddaear—ffrindiau ffyddlon y medrwn ni ymddiried ynddyn' nhw ac y medrwn ni addoli Jehofah yn gytun gyda nhw (In 4:23, 24)

Bywyd ac iddo wir ystyr a llawenydd cynrychioli Jehofah, wrth helpu eraill i ddysgu'r gwirionedd

Rhyddid oddi wrth afiechydon a achosir gan anfoesoldeb neu ormodedd oherwydd peidio â dilyn safonau moesol y Beibl

Adnoddau a wastraffwyd gynt ar ddrygau 'nawr yn cael eu defnyddio er budd eraill, gyda hapusrwydd yn dilyn (Act 20:35)

Rhyddid i agosáu at Jehofah mewn gweddi a chydwybod lân oherwydd cael maddau pechodau

Y dyfodol: Bywyd tragwyddol ym Mharadwys; dim troseddu, anghyfiawnder, gormes

Byw dan arglwyddiaeth perffaith Iesu Grist ymhlith pobl sy'n gweithredu gofal (Eseia 11:6-9)

Yn sicr mae gennym bob rheswm dros ymostwng i arglwyddiaeth Duw 'nawr

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)